CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

2006 Rhif 1707 (Cy.169)

TAI, CYMRU

Rheoliadau Tai Amlfeddiannaeth (Sefydliadau Addysgol Penodedig) (Cymru) 2006

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae atodlen 14 i Ddeddf Tai 2004 ("y Ddeddf") yn disgrifio tai nad ydynt yn dai amlfeddiannaeth ("HMOs") at ddibenion y Ddeddf (ac eithrio Rhan 1). Mae adran 254 o'r Ddeddf yn diffinio HMOs.

Mae paragraff 4 o Atodlen 14 i'r Ddeddf yn darparu nad yw adeilad yn HMO at ddibenion y Ddeddf (ac eithrio Rhan 1) os yw'n adeilad a feddiennir yn unig neu yn bennaf gan bersonau sy'n ei feddiannu at ddibenion dilyn cwrs amser llawn o addysg bellach mewn sefydliad penodedig neu mewn sefydliad o fath penodedig, a phan mai'r person sy'n ei reoli neu sydd â rheolaeth drosto yw'r sefydliad dan sylw neu berson penodedig neu berson o fath arbennig. Mae Rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn pennu sefydliadau o'r fath. Mae'r sefydliadau yn rhai penodedig os ydynt yn cael eu rhestru yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn ac os ydynt hefyd yn cael eu rhestru fel rheolwr unrhyw adeilad a restrir mewn atodlen sy'n ffurfio rhan o'r naill neu'r llall o'r codau y cyfeirir atynt yn rheoliad 2(b).

Gellir cael copi o God Ymarfer y DU/ Cynhadledd Sefydlog Prifathrawon Prifysgolion (Cymru) gan Y Gyfarwyddiaeth Dai, Yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ; e-bost: housing@wales.gsi.gov.uk; rhyngrwyd: www.wales.gov.uk, neu Universities UK, Woburn House, 20 Tavistock Square, Llundain WC1H 9HQ; e-bost: info@universitiesuk.ac.uk; rhyngrwyd: info@universitiesuk.ac.uk.

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

2006 No. 1707 (W.169)

HOUSING, WALES

The Houses in Multiple Occupation (Specified Educational Establishments) (Wales) Regulations 2006

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

Schedule 14 to The Housing Act 2004 ("the Act") describes buildings that are not houses in multiple occupation ("HMOs") for the purposes of the Act (excluding Part 1). HMOs are defined by section 254 of the Act.

Paragraph 4 of Schedule 14 to the Act provides that a building is not an HMO for the purposes of the Act (excluding Part 1) if it is a building which is occupied solely or principally by persons who occupy it for the purpose of undertaking a full-time course of further education at a specified establishment or at an establishment of a specified description, and where the person managing or controlling it is the establishment in question or a specified person or a person of a specified description. Regulation 2 of these Regulations specify such establishments. The establishments are specified if they are listed in the Schedule to these Regulations and are also listed as the manager of any building listed in a schedule forming part of either of the codes referred to in regulation 2(b).

A copy of the Universities UK/Standing Conference of Principals Code of Practice (Wales) may be obtained from the Housing Directorate, Department for Social Justice and Regeneration, Welsh Assembly Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ; e-mail: housing@wales.gsi.gov.uk; internet: www.wales.gov.uk, or Universities UK, Woburn House, 20 Tavistock Square, London WC1H 9HQ; e-mail: info@universitiesuk.ac.uk; internet: www.universities UK.ac.uk.

Gellir cael copi o God Rhwydwaith Achrediad y DU/Cod Safonau Unipol (Cymru) gan Y Gyfarwyddiaeth Dai, Yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ; e-bost: housing@wales.gsi.gov.uk; rhyngrwyd: www.wales.gov.uk, neu The National Administrator, National Codes of Standards, 155-157 Woodhouse Lane, Leeds LS2 3ED; e-bost: nationalcode@unipol.leeds.ac.uk neu nationalcode@anuk.org.uk; rhyngrwyd: www.unipol.org.uk neu www.anuk.org.uk/Large Code/.

Mae arfarniad rheoliadol o'r effeithiau y bydd y Rheoliadau hyn yn ei gael ar gael oddi wrth Y Gyfarwyddiaeth Dai, Yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ; e-bost: housing@wales.gsi.gov.uk; intranet: www.wales.gov.uk.

A copy of the Accreditation Network UK/Unipol Code of Standards Code (Wales) may be obtained from the Housing Directorate, Department for Social Justice and Regeneration, Welsh Assembly Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ; e-mail: housing@wales.gsi.gov.uk; internet: www.wales.gov.uk, or The National Administrator, National Codes of Standards, 155-157 Woodhouse Lane, Leeds LS2 3ED: e-mail: nationalcode@unipol.leeds.ac.uk or nationalcode@anuk.org.uk: internet: www.unipol.org.uk or www.anuk.org.uk/Large Code/.

A full regulatory appraisal of the effects of these Regulations is available from the Housing Directorate, Department for Social Justice and Regeneration, the National Assembly for Wales, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ; e-mail: housing@wales.gsi.gov.uk; internet: www.wales.gov.uk

2006 Rhif 1707 (Cy.169)

TAI, CYMRU

Rheoliadau Tai Amlfeddiannaeth (Sefydliadau Addysgol Penodedig) (Cymru) 2006

Wedi'u gwneud	*27 Mehefin 2006*
Yn dod i rym	*7 Gorffennaf 2006*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan baragraff 4(2) o Atodlen 14 o Ddeddf Tai 2004(**1**), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Tai Amlfeddiannaeth (Sefydliadau Addysgol Penodedig) (Cymru) 2006 a deuant i rym ar 7 Gorffennaf 2006.

(1) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Sefydliadau addysgol penodedig at ddibenion penodol o fewn Deddf Tai 2004

2. Mae sefydliad addysgol yn un penodedig at ddibenion paragraff 4 o Atodlen 14 i Ddeddf Tai 2004 os yw-

(a) wedi ei restru yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn; a

(b) wedi ei restru fel y sefydliad addysgol perthnasol o ran adeilad-

(**1**) 2004 p. 34. Mae'r pwerau a roddwyd gan baragraff 4(2) o Atodlen 14 o Ddeddf Tai 2004 ("y Ddeddf") yn arferadwy, o ran Cymru, gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ac o ran Lloegr, gan yr Ysgrifennydd Gwladol. *Gweler* y diffiniad o "appropriate national authority" ("*awdurdod cenedlaethol priodol*") yn adran 261 (1) o'r Ddeddf.

2006 No. 1707 (W.169)

HOUSING, WALES

The Houses in Multiple Occupation (Specified Educational Establishments) (Wales) Regulations 2006

Made	*27 June 2006*
Coming into force	*7 July 2006*

The National Assembly for Wales, in exercise of the powers conferred by paragraph 4(2) of Schedule 14 to the Housing Act 2004(**1**), hereby makes the following Regulations:

Title, commencement and application

1.-(1) The title of these Regulations is The Houses in Multiple Occupation (Specified Educational Establishments) (Wales) Regulations 2006 and they come into force on 7 July 2006.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

Educational establishments specified for certain purposes of the Housing Act 2004

2. An educational establishment is specified for the purposes of paragraph 4 of Schedule 14 to the Housing Act 2004 where-

(a) it is listed in the Schedule to these Regulations; and

(b) it is listed as the relevant educational establishment in respect of a building-

(**1**) 2004 c. 34. The powers conferred by paragraph 4(2) of Schedule 14 of the Housing Act 2004 ("the Act") are exercisable, as respects Wales, by the National Assembly for Wales and as respects England, by the Secretary of State. *See* definition of appropriate national authority ("*awdurdod cenedlaethol priodol*") in section 261(1) of the Act.

(i) sydd wedi ei restru yn yr Atodlen i God Ymarfer Prifysgolion y DU/Cynhadledd Sefydlog Prifathrawon y Prifysgolion ar gyfer Rheoli Cartrefi Myfyrwyr (Cymru) dyddiedig 16 Mai 2006(**1**); neu

(ii) wedi ei restru yn ail golofn Atodlen 1 i God Rhwydwaith Achrediad y DU/Cod Safonau Unipol ar gyfer Datblygiadau Mwy ar gyfer Llety i Fyfyrwyr a Reolir ac sydd dan Reolaeth Sefydliadau Addysgol (Cynru) dyddiedig 16 Mai 2006(**2**).

(i) listed in the Schedule of The Universities UK/Standing Conference of Principals Code of Practice for the Management of Student Housing (Wales) dated 16 May 2006(**1**); or

(ii) listed in the second column of Schedule 1 of the Accreditation Network UK/Unipol Code of Standards for Larger Developments for Student Accommodation Managed and Controlled by Educational Establishments (Wales) dated 16 May 2006(**2**).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**).

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**3**).

27 Mehefin 2006

27 June 2006

D. Elis-Thomas

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

(**1**) Mae'r Cod Ymarfer hwn wedi cael ei gymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 233 o'r Ddeddf. *Gweler* Gorchymyn Tai (Cymeradwyo Codau Ymarfer Rheoli) (Llety Myfyrwyr) (Cymru) 2006 (O.S. 2006/1709 (W.171)).

(**2**) Mae'r Cod Ymarfer hwn wedi cael ei gymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 233 o'r Ddeddf. *Gweler* Gorchymyn Tai (Cymeradwyo Codau Ymarfer Rheoli) (Llety Myfyrwyr) (Cymru) Gorchymyn 2006 (O.S. 2006/1709 (Cy.171)).

(**3**) 1998 p.38.

(**1**) This Code of Practice has been approved by the National Assembly for Wales under section 233 of the Act. *See* The Housing (Approval of Codes of Management Practice (Student Accommodation) (Wales) Order 2006 (SI 2006/1709 (W.171)).

(**2**) This Code of Practice has been approved by the National Assembly for Wales under section 233 of the Act. *See* The Housing (Approval of Codes of Management Practice) (Student Accommodation) (Wales) Order 2006 (SI 2006/1709 (W.171)).

(**3**) 1998 c.38.

ATODLEN

Rheoliad 2(a)

Sefydliadau addysgol penodedig at ddibenion paragraff 4 o Atodlen 14 i Ddeddf Tai 2004

Prifysgol Caerdydd;

Prifysgol Morgannwg;

Athrofa Addysg Uwch Abertawe;

Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd;

Prifysgol Cymru, Aberystwyth;

Prifysgol Cymru, Bangor;

Coleg y Drindod Caerfyrddin;

Prifysgol Cymru, Casnewydd;

Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan;

Prifysgol Cymru, Abertawe.

SCHEDULE

Regulation 2(a)

Educational establishments specified for the purposes of paragraph 4 of Schedule 14 to the Housing Act 2004

Cardiff University;

University of Glamorgan;

Swansea Institute of Higher Education;

University of Wales Institute, Cardiff;

University of Wales, Aberystwyth;

University of Wales, Bangor;

Trinity College Carmarthen;

University of Wales, Newport;

University of Wales, Lampeter;

University of Wales, Swansea.

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2006 Rhif 1707 (Cy.169)

2006 No. 1707 (W.169)

TAI, CYMRU

HOUSING, WALES

Rheoliadau Tai Amlfeddiannaeth (Sefydliadau Addysgol Penodedig) (Cymru) 2006

The Houses in Multiple Occupation (Specified Educational Establishments) (Wales) Regulations 2006

©℗ Hawlfraint y Goron 2006

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2006

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£3.00

W352/07/06 ON